UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

www.ucac.cymru

# Cwricwlwm i Gymru: Ymlaen â'r daith – disgwyliadau ar gyfer datblygu'r cwricwlwm yn barhaus a'i adolygu

## Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad


Eich enw: Iona A. Davies

Sefydliad (lle bo'n berthnasol): UCAC

e-bost/rhif ffôn: iona@ucac.cymru

Eich cyfeiriad: Prif Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2EU


Dylid dychwelyd ymatebion erbyn 18 Tachwedd i:

Uned gwireddu'r cwricwlwm
Isadran Cwricwlwm, Asesu a Gwella Ysgolion
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: cwricwlwmigymru@llyw.cymru

Ydych chi'n gweithio ym maes addysg neu'n helpu i ddarparu addysg?

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ydw** | ✓ | **Nac ydw** | ☐ |

(i) Os ydw, beth yw eich sefydliad? (Os nac ydw, ewch i iii isod)

| | | | |
|---|---|---|---|
| Lleoliad a ariennir nas cynhelir | | Sefydliad addysg uwch | |
| Ysgol gynradd | | Awdurdodau esgobaethol | |
| Ysgol arbennig | | Consortia/partneriaeth rhanbarthol | |
| Ysgol uwchradd | | Awdurdod lleol | |
| Ysgol pob oed | | Darparwr hyfforddiant preifat | |
| Uned cyfeirio disgyblion | | Trydydd sector | |
| Lleoliad arall yn darparu addysg heblaw yn yr ysgol | | Llywodraeth | |
| Undeb athrawon | ✓ | Corff llywodraethu | |
| Addysg bellach | | Sefydliad dyfarnu | |
| Corff rheoleiddio (yn cynnwys Arolygiaeth) | | | |
| Arall (nodwch): | | | |

(ii) Beth yw eich prif rôl?

| | | | |
|---|---|---|---|
| Pennaeth | ☐ | Canghellor/Is-ganghellor | ☐ |
| Athro | ☐ | Darlithydd | ☐ |
| Ymarferydd | ☐ | Arolygydd | ☐ |
| Athro newydd gymhwyso | ☐ | Llywodraethwr | ☐ |
| Cynorthwyydd addysgu | ☐ | Swyddog gwella ysgolion | ☐ |
| Uwch arweinydd | ☐ | Arall (nodwch): | ☐ |
| Athro cyflenwi | ☐ | Swyddog Polisi | ✓ |
| Prifathro/Is-brifathro | ☐ | | ☐ |

(iii) Os nad ydych yn gweithio ym maes darparu addysg neu mewn maes sy'n cefnogi darparu addysg, ym mha rinwedd yr hoffech roi adborth?

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhiant neu ofalwr | ☐ | Cyflogwr | ☐ |
| Oedolyn 18 oed neu'n hŷn (nid rhiant na gofalwr) | ☐ | Prentis | ☐ |
| Plentyn neu berson ifanc (o dan 18) | ☐ | Arall (nodwch beth): | ☐ |
| Myfyriwr/academydd | ☐ | | |

(iv) A ydych chi'n darparu adborth ar ran sefydliad neu grŵp?

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ydw** | ✓ | **Nac ydw** | ☐ |

(v) Os, 'ydw', nodwch:

**UCAC (Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru)**

**Cwestiwn 1** – I ba raddau ydych yn cytuno bod y canllawiau Ymlaen â'r daith arfaethedig hyn, ochr yn ochr â chanllawiau cyfredol y Cwricwlwm i Gymru, yn nodi disgwyliadau ar gyfer gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru?

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | ✓ | Cytuno i raddau | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ | Anghytuno i raddau | ☐ | Anghytuno'n gryf | ☐ |

Esboniwch eich ateb os gwelwch yn dda.

**Ymddengys fod y canllawiau 'Ymlaen â'r daith' a'r canllawiau presennol yn nodi'r holl ofynion a'r disgwyliadau ar gyfer cyflwyno a gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru.**

**Cwestiwn 2** – I ba raddau ydych yn cytuno bod y canllawiau Ymlaen â'r daith arfaethedig hyn yn cynnwys lefel briodol o fanylder?

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | ☐ | Cytuno i raddau | ✓ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ | Anghytuno i raddau | ☐ | Anghytuno'n gryf | ☐ |

Nodwch yma os gwelwch yn dda lle rydych chi’n meddwl mae bylchau a beth dylid ei ychwanegu neu ei dynnu.

| |
|---|
| **Rydym yn croesawu’r ffaith bod y canllawiau yn ‘fersiwn byrrach a mwy penodol’ ac y gwneir defnydd effeithiol o hyperddolenni i ehangu ar y wybodaeth. Mae yna nifer helaeth o ddeunyddiau a chanllawiau ac mae eu cyflwyno fel hyperddolenni yn hwyluso’r broses o gael mynediad atynt. Tybed a oes angen cymaint o ddogfennau ac a fyddai modd cyflwyno’r holl wybodaeth mewn dull mwy cryno a darllenadwy? Ymddengys fod peth ailadrodd mewn mannau.** |

**Cwestiwn 3** – I ba raddau ydych yn cytuno bod y canllawiau arfaethedig Ymlaen â’r daith hyn yn cyfeirio'n effeithiol at ddeunyddiau ategol y Cwricwlwm i Gymru a chanllawiau'r Fframwaith?

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cytuno’n gryf | ✓ | Cytuno i raddau | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ | Anghytuno i raddau | ☐ | Anghytuno’n gryf | ☐ |

Nodwch yma os gwelwch yn dda ddeunyddiau ategol sydd heb eu cynnwys a allai fod yn ddefnyddiol.

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 4** – I ba raddau ydych yn cytuno bod y canllawiau a roddwyd yn Ymlaen â’r Daith ar grynodebau o'r cwricwlwm yn ddefnyddiol?

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cytuno’n gryf | ✓ | Cytuno i raddau | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ | Anghytuno i raddau | ☐ | Anghytuno’n gryf | ☐ |

Nodwch yma os gwelwch yn dda pa wybodaeth ychwanegol neu gefnogaeth byddai’n ddefnyddiol ar gyfer datblygu a chyhoeddi crynodeb cwricwlwm.

| |
|---|
| **Hyd y gwelir, mae’r ddogfen yn cynnig canllawiau defnyddiol i ysgolion. Mae’r defnydd o gwestiynau defnyddiol a rhestru pwyntiau bwled yn ddull a groesewir.** |

**Cwestiwn 5** – Yn eich barn chi, beth fyddai effeithiau tebygol yr adran Ymlaen â’r daith hon o ganllawiau y Cwricwlwm i Gymru ar y Gymraeg? Mae diddordeb penodol gyda ni mewn unrhyw effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg ac ar

beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ydych chi'n meddwl fod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?
Ydych chi'n meddwl fod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

**Sylwadau ategol**

**Y gobaith yw y bydd cymaint o athrawon â phosibl yn defnyddio fersiwn Gymraeg y ddogfen hon. Ar brydiau, fodd bynnag, teimlwn fod modd i'r mynegiant fod yn fwy naturiol (gweler yr ymateb i gwestiwn 6).**

**Cwestiwn 6** – a fyddai modd ffurfio neu addasu'r adran Ymlaen â'r daith hon o ganllawiau y Cwricwlwm i Gymru er mwyn sicrhau:

- ei fod yn cael effeithiau positif neu fwy positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na Saesneg; a
- nad yw'n cael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na Saesneg?

**Sylwadau ategol**

**Er bod y ddogfen ar gael yn y Gymraeg, ar adegau teimlir mai cyfieithiad yw hi o ddogfen Saesneg. Mae rhai rhannau o'r ddogfen a'r defnydd o eirfa megis 'iterus', 'mandadol' a geiriau cyffelyb sy'n eiriau 'gwneud' o'r Saesneg a'r ffaith ei bod yn dilyn y gystrawen Saesneg mewn mannau yn peri nad yw yn ddogfen 'ddarllenadwy' iawn. Er mwyn sicrhau bod Cymry Cymraeg yn ei darllen yn y Gymraeg a bod mwy o ddefnydd o'r ddogfen hon yn y Gymraeg, buaswn yn croesawu pe bai yn cael ei hysgrifennu mewn Cymraeg graenus a naturiol.**

**Cwestiwn 7** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech dynnu ein sylw at unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, gallwch wneud hynny yma:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐